# Lefel 3 Troseddeg

# Cwestiynau Cyffredin (Medi 2021)

## GWYBODAETH GYFFREDINOL

**A oes pwyntiau UCAS am y cymhwyster Troseddeg hwn?**

Mae ein cymwysterau Lefel 3 Troseddeg wedi'u cymeradwyo gan Ofqual a Llywodraeth Cymru. Mae pwyntiau UCAS am y cymhwyster hwn ac mae'n ymddangos ar Gyfrifiannell Tariff UCAS. Mae'r graddau a drawsnewidir yn bwyntiau UCAS wedi'u rhestru isod er hwylustod i chi.

| Gradd | Diploma | Tystysgrif |
|---|---|---|
| **A*** | 56 | |
| **A** | 48 | 24 |
| **B** | 40 | 20 |
| **C** | 32 | 16 |
| **D** | 24 | 12 |
| **E** | 16 | 8 |

Troseddeg yw'r unig Gymhwyster Cyffredinol Cymhwysol sydd wedi'i gymeradwyo yn y categori hwn a bydd yn cael ei gynnwys ar y Tablau Perfformiad yn 2022 a 2023. Mae gwybodaeth bellach am Dablau Perfformiad a chyllid ar wefan Llywodraeth y DU yma.

**Pa brifysgolion sy'n derbyn CBAC Eduqas Lefel 3 Troseddeg Gymhwysol?**

Mae llawer o brifysgolion yn derbyn y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, mae'r gofynion mynediad yn amrywio'n sylweddol ar draws sefydliadau. Dylai myfyrwyr bob amser wirio â'u prifysgol o ddewis i gadarnhau eu gofynion mynediad unigol ar gyfer y cyrsiau israddedig a ddewiswyd ganddynt.

**Ble gallaf ddod o hyd i'r fanyleb?**

Gellir dod o hyd i fersiynau diweddaraf ein manylebau ar wefan CBAC (cbac.co.uk) ac Eduqas (eduqas.co.uk) drwy ddewis 'Troseddeg' o'r gwymplen ar y dudalen hafan.

**A oes trefn/strwythur a gaiff ei argymell wrth addysgu'r fanyleb ddiwygiedig?**

Rydym yn argymell ymdrin â'r unedau mewn trefn gronolegol. Mae elfennau synoptig yn Unedau 2 a 4, y gallai'r ymgeiswyr golli allan arnyn nhw os nad ydyn nhw eisoes wedi ymdrin ag Unedau 1 a 3. Er y caniateir i ganolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn y ffordd sy'n gweddu orau iddyn nhw, dylid nodi bod yn rhaid cwblhau Unedau 1 a 2 yn llwyddiannus er mwyn derbyn Tystysgrif. Bydd cwblhau Unedau ychwanegol 3 a 4 yn llwyddiannus yn caniatáu i'r Diploma gael ei ddyfarnu. Nid oes achrediad ar gael ar gyfer cwblhau Unedau 1 a 3 yn unig neu Unedau 2 a 4 yn unig.

**Sut mae graddau'n cael eu dyfarnu ar gyfer Tystysgrif a Diploma Lefel 3 Troseddeg?**

Mae'r holl fanylion am raddio i'w cael ym manylebau'r Tystysgrif a'r Diploma (Pennod 4). I ennill pob cymhwyster – Tystysgrif a Diploma – rhaid i ymgeiswyr fodloni trothwy o 80 marc ar y graddfa marciau unffurf. (GMU). Rhaid i hyn gynnwys o leiaf 40 GMU o bob un o'r unedau asesu dan reolaeth (llwyddo) ac o leiaf 30 GMU o bob un o'r unedau sy'n cael eu harholi (llwyddo o ychydig) Er enghraifft, byddai ymgeisydd yn ennill 35 GMU ar gyfer Uned 2 ond byddai'n rhaid cyflawni o leiaf 45 GMU o Uned 1 er mwyn cyrraedd trothwy 80 GMU. Mae'r un rheol yn berthnasol i Unedau 3 a 4. **Noder mai dim ond yn yr unedau sy'n cael eu harholi mae'r rheol llwyddo o ychydig yn gymwys. Rhaid i ymgeiswyr ennill o leiaf 40 GMU yn yr asesiadau dan reolaeth.**

| Pwysoli'r uned | Uchafswm Marciau Crai | Uchafswm Marciau GMU | A | B | C | D | E | N |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1 (Asesiad Mewnol) 25% neu 50% o'r Dystysgrif** | 100 | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | |
| **Uned 2 (Asesiad Allanol) 25% neu 50% o'r Dystysgrif** | 75 | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | 30 |
| **Uned 3 (Asesiad Mewnol) 25%** | 100 | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | |
| **Uned 4 (Asesiad Allanol) 25%** | 75 | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | 30 |

Ar gyfer Diploma Lefel 3, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni Gradd A (320 o farciau unffurf) yn y cymhwyster cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer y ddwy uned ychwanegol sy'n rhan o'r diploma (unedau 3 a 4).

Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifo cywerthoedd GMU ar gyfer marciau crai i'w cael drwy Drawsnewid Graddau GMU yma.

**Os yw rhywbeth yn cael ei restru fel enghraifft yn y meini prawf asesu, a yw hi'n bwysig addysgu'r enghraifft hon yn ystod yr uned?**

Mae'r fanyleb wedi'i chynllunio i alluogi athrawon i addysgu yn ôl eu cryfderau, er enghraifft: Os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn addysgu Bandura fel damcaniaeth unigolyddol o droseddoldeb (a enwir yn y fanyleb fel rhan o Uned 2, MPA2.2) yna gallwch addysgu'r ddamcaniaeth hon. Fodd bynnag, os nad ydych yn gyfarwydd iawn â'i waith ac os ydych am addysgu damcaniaeth Bowlby yn lle hynny – mae hyn yn dderbyniol hefyd.


## UNEDAU A ASESIR YN FEWNOL / ASESIADAU DAN REOLAETH (UNED 1 AC UNED 3)

**Rwy'n newydd i Droseddeg ac nid wyf wedi cyflwyno asesiadau dan reolaeth o'r blaen. Pa ddeunydd hyfforddi sydd ar gael?**

Cyn i chi ddechrau cynllunio, cyfeiriwch at yr adnoddau canlynol:

a) **Gweminar** ar gynnal sesiynau asesu dan reolaeth. Gellir ei gweld yma: https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/lefel-3-troseddeg/#tab_overview




b) **Llawlyfr athrawon ar gyfer asesiad dan reolaeth.** Mae'r canllaw cyflawn hwn ar ein gwefan ddiogel yn yr un ffolder â Briffiau Aseiniad y Dysgwyr (gweler y cyfarwyddiadau yn Atodiad A y llyfryn hwn).

**Beth yw asesiad dan reolaeth a sut mae'n wahanol i arholiad?**

Cynhelir asesiadau mewnol o gymwysterau galwedigaethol CBAC ar ffurf asesiad dan reolaeth. Caiff tasgau asesiad dan reolaeth eu gweinyddu a'u hasesu'n fewnol a chyflwynir sampl i CBAC Eduqas i'w gymedroli. Bwriad asesiad dan reolaeth yw:

- sicrhau bod pob ymgeisydd yn treulio tua'r un faint o amser ar eu haseiniadau, ac eithrio'r rhai sydd â threfniadau mynediad
- atal trydydd parti rhag rhoi lefelau amhriodol o arweiniad a mewnbwn
- lleihau pryderon ynglŷn â llên-ladrata a gwella pa mor ddibynadwy a dilys yw canlyniadau
- caniatáu lefel resymol o ryddid a rheolaeth i ganolfannau
- caniatáu i ymgeiswyr greu darn o waith gwreiddiol.

Atgoffwn y canolfannau bod yn rhaid cynnal tasgau asesiad dan reolaeth CBAC Lefel 3 Cymhwysol dan **lefelau *uchel* o reolaeth (oni nodir yn wahanol ym mriff aseiniad y dysgwr) ac o dan**

**oruchwyliaeth ffurfiol** gan staff neu bersonél allanol.
Cyfeiriwch at Ganllaw CBAC ar Asesiad dan Reolaeth ar y wefan ac at y Llawlyfr Asesiad dan Reolaeth i Athrawon sydd i'w gael yn y ffolderi Briffiau Aseiniad y Dysgwyr ar ein gwefan ddiogel (gweler Atodiad A) am fwy o wybodaeth o ran gweinyddu'r sesiynau asesiad dan reolaeth. Byddwch yn ymwybodol bod mynediad i'r rhyngrwyd yn ofyniad ar gyfer tasgau penodol o fewn Uned 1 Troseddeg yn unig. **Ni ddylid caniatáu mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer unrhyw dasg arall.**

**Ble gallaf ddod o hyd i friffiau'r aseiniad?**

Gellir dod o hyd i friffiau'r aseiniad ar y wefan ddiogel (gweler y cyfarwyddiadau yn Atodiad A y llyfryn hwn). Mae pedwar briff aseiniad ar gael ar gyfer pob uned a asesir yn fewnol a gallai'r ganolfan ddewis pa un o'r rhain sy'n gweddu orau i'w dysgwyr. Ni ddylai dysgwyr gael mynediad i friff na thasgau terfynol cyn i'r asesiad dan reolaeth gael ei gynnal.

**Sut ydyn ni'n strwythuro oriau'r asesiad dan reolaeth?**

Mae'r tasgau asesiad dan reolaeth ar gyfer Troseddeg wedi'u cynllunio fel **asesiadau crynodol** ac mae'n rhaid eu cymryd ar ôl i'r addysgu ar gyfer yr uned honno ddod i ben. Gellir strwythuro'r oriau gofynnol yn y ffordd sy'n gweddu orau i'r ganolfan a'r garfan. Er enghraifft, rhaid cwblhau asesiad dan reolaeth Uned 1 mewn 8 awr. Cyn belled â bod y gwaith a'r nodiadau a baratowyd gan yr ymgeiswyr wedi'u storio'n ddiogel ar ddiwedd pob sesiwn (heb fynediad ar gael i ymgeiswyr), gall y ganolfan drefnu'r oriau hyn fel y mynna.

**Pa ddeunyddiau y gall ymgeiswyr eu cymryd i mewn i'r asesiad dan reolaeth?**

Mae ***tudalen grynodeb*** pob briff aseiniad y dysgwr yn rhoi manylion yr union ofynion ar gyfer cwblhau asesiadau dan reolaeth ac mae'n rhaid i ganolfannau lynu at y cyfarwyddyd hwn. Nodir y gall ymgeiswyr fynd â'u ***nodiadau dosbarth*** i amgylchedd yr asesiad dan reolaeth i'w cynorthwyo. Caiff nodiadau dosbarth eu diffinio fel y rhai a gyflenwir gan yr athro (ar ffurf nodiadau neu PowerPoint) yn ogystal â nodiadau a gwaith personol yr ymgeisydd o'i astudiaethau a'i wersi, os yw'n dewis eu cynnwys. Cynghorir athrawon i gynllunio deunyddiau addysgu i ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau eu ***hymchwil eu hunain*** lle bo'n bosibl fel eu bod yn cynhyrchu eu nodiadau eu hunain o'r cychwyn cyntaf. Ni ddylent fod yn ddibynnol ar ddeunydd ac astudiaethau achos sy'n cael eu rhoi iddyn nhw, na rhai sydd wedi'u hat-gynhyrchu o'r gwerslyfr. Gall hyn arwain at faterion o lên-ladrata a gall arwain at addasiadau marcio. ***Ni chaniateir*** i ymgeiswyr gael mynediad at y gwerslyfr CBAC Troseddeg nac at unrhyw werslyfr arall yn ystod yr asesiad dan reolaeth ond gallan nhw fynd â **nodiadau cryno** gyda nhw yn seiliedig ar rannau o'r cynnwys, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Fel y nodwyd ar dudalen 11 y fanyleb, *'gall yr aseswr benderfynu pa adnoddau y dylid eu rhoi i ddysgwyr er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad teg a dilys'* ac felly, dylai canolfannau a goruchwylwyr sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael mynediad at ddyfeisiau storio na thasgau asesu wedi'u cwblhau sy'n cynnwys adborth manwl gan athrawon. Dylai'r holl waith a gyflwynir i gael ei asesu fod yn ***wreiddiol*** a rhaid iddo fod wedi'i gynhyrchu dan amodau asesu dan reolaeth. Dylid cyfeirnodi gwaith nad yw'n wreiddiol, lle bo'n berthnasol, a dylai ymgeiswyr fod yn gwbl ymwybodol na ddylent lên-ladrata o ddeunydd arall. **O ganlyniad, yn ystod asesiad dan reolaeth Uned 1, ni ddylai ymgeiswyr gael mynediad at unrhyw ddeunyddiau ymgyrchu a gynlluniwyd yn flaenorol ar gyfer DD3. Dylai**

**canolfannau sicrhau nad yw nodiadau ymgeiswyr yn cynnwys deunyddiau wedi'u dylunio y gellid eu copïo.**

**Yn ogystal â gwaith ymgeiswyr, a oes angen i ni gadw nodiadau'n ddiogel rhwng sesiynau asesu dan reolaeth?**

Oes. Dylai canolfannau gasglu nodiadau myfyrwyr i'w gwirio cyn i'r asesiad dan reolaeth cyntaf gael ei gynnal. Dylai canolfannau storio nodiadau ymgeiswyr yn ddiogel rhwng sesiynau asesiadau dan reolaeth. Unwaith y bydd myfyrwyr yn ymwybodol o dasg/y tasgau, ni ddylid caniatáu mwy o amser iddyn nhw baratoi nac ychwanegu at eu nodiadau. Mae storio diogel yn lleihau'r angen i oruchwylwyr wneud y dasg lafurus o ail-wirio nodiadau.

**Pa adborth y gallwn ei roi i ymgeiswyr yn ystod yr asesiad dan reolaeth?**

***Ni ddylai'r*** aseswr roi adborth ar ôl i'r asesiad dan reolaeth gychwyn. Ni chaniateir unrhyw gymorth i ymgeiswyr yn ystod y dasg (ni waeth faint o sesiynau sydd yno) a byddai unrhyw gymorth a roddir e.e. drafftiau marcio, yn gyfystyr â chamymddwyn.

**Pa gyngor allwn ni ei roi i ymgeiswyr?**

Dylai canolfannau sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'r meini prawf asesu ar gyfer pob uned. Gall canolfannau hefyd gynghori ymgeiswyr ar strwythur addas ar gyfer eu haseiniad gorffenedig ond nid ydyn nhw'n cael darparu atebion enghreifftiol sy'n benodol i'r tasgau y byddan nhw'n eu cymryd. Rhaid dweud yn glir wrth fyfyrwyr y bydd dyfynnu'n uniongyrchol o ddeunyddiau cyhoeddedig yn cael ei drin fel llên-ladrad. Caniateir mynediad i ymgeiswyr at grynodebau o achosion, nodiadau ar y meini prawf asesu ac ati, ond dylai ymgeiswyr roi eu syniadau ***yn eu geiriau eu hunain***. Bydd rhoi digon o rybudd ac amser i baratoi i ymgeiswyr fel arfer yn lleihau'r achosion o ymddwyn yn amhriodol gan ymgeiswyr.

**A oes hawl gan ymgeiswyr i gael mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer pob tasg yn yr asesiadau mewnol?**

Nac oes. Mae'r ***dudalen grynodeb*** ar gyfer pob aseiniad dan reolaeth yn rhoi'r manylion ynghylch rheolaethau ar gyfer mynediad i'r rhyngrwyd. Dylai canolfannau ymgynghori â'u hadrannau TG am gymorth o ran cadw at y rheolaethau a nodir. Gallai hyn gynnwys gosod ardal storio diogel er mwyn i ymgeiswyr gadw eu gwaith ar ddiwedd pob sesiwn a galluogi/analluogi mynediad i'r rhyngrwyd yn unol â rheolaethau Uned 1. Nid yw Uned 3 yn caniatáu mynediad i'r rhyngrwyd. Bydd tystiolaeth o fynediad i'r rhyngrwyd mewn gwaith ymgeisydd yn cael ei thrin fel camymddwyn.

**A ddylai ymgeiswyr gyfeirio at friff yr aseiniad wrth drafod pob maen prawf asesu?**

**Rhaid** i ymgeiswyr gyfeirio at y briff pan gaiff ei nodi'n glir yn rhan o'r dasg h.y. Tasg 6 Uned 1 a Thasgau 8 a 9 ar gyfer Uned 3. Mae cyfeirio at y briff yn ofyniad yn y cynllun marcio a **bydd methu â chyfeirio at y briff yn y tasgau hyn yn cyfyngu ar y marciau.** Felly, dylai ymgeiswyr gyfeirio at y briff lle y bo'n berthnasol a dylent ddefnyddio enghreifftiau eraill y maent wedi'u hastudio i gefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Dylai ymgeiswyr nodi lle bo enghreifftiau yn ofynnol yn ôl meini prawf

asesu penodol.

**A yw'n dderbyniol rhannu'r briffiau aseiniad gydag ymgeiswyr cyn yr asesiad dan reolaeth?**

Nac ydyw. O fis Medi 2020 ymlaen, dylai canolfannau sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'r meini prawf asesu ond ***ni chaniateir*** **rhannu'r briffiau na'r tasgau ag ymgeiswyr tan y bydd yr asesiad dan reolaeth wedi cychwyn.** Bydd ymgeiswyr yn cael eu profi ar eu gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth a enillwyd drwy astudio'r fanyleb at y senario a gyflwynir yn y briff a ddewiswyd.

**A yw'n dderbyniol addysgu Uned 1 DD3 gan ddefnyddio'r troseddau sy'n amlwg ym mriff yr aseiniad?**

Ydy. Dylech drafod yr amrywiaeth gyfan o droseddau a restrir yn y fanyleb, ond ni ddylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o gynnwys y briff cyn i'r asesiad dan reolaeth ddigwydd. Dylid addysgu egwyddorion cynllunio ymgyrch mewn cyd-destunau amrywiol iddynt fel y gallan nhw gymhwyso'r sgiliau hynny at gyd-destun nas gwelwyd o'r blaen yn amgylchedd yr asesiad dan reolaeth. Ni ddylent fod yn cymryd enghreifftiau o ddeunyddiau ymgyrchu a gynlluniwyd ganddyn nhw eu hunain neu bobl eraill i amgylchedd yr asesiad dan reolaeth.

**A yw'n ofynnol i aseswyr ysgrifennu sylwadau a chyfiawnhau marciau wrth farcio asesiadau mewnol?**

Ydy. Gofynnwn fod athrawon yn ysgrifennu sylwadau a phwyntiau cyfiawnhau cryno yng nghorff gwaith yr ymgeisydd i'w wneud yn haws i'n cymedrolwyr ddeall ymhle y dyfarnwyd marciau i'r ymgeiswyr, ac i weld ymhle yr aethpwyd i'r afael â'r meini prawf asesu. Sicrhewch fod lleoliad pob maen prawf asesu wedi'i nodi drwy anodiadau cryno. Dylid ychwanegu sylwadau cyfiawnhau byr at bob adran berthnasol o'r daflen farciau (mae taflenni marciau wedi'u cynnwys gyda phob briff aseiniad ac mae fersiynau Word ar wahân ar gael ar ein gwefan gyhoeddus).

**A ydych chi'n cynnig hyfforddiant marcio?**

Er nad ydym yn cynnig hyfforddiant uniongyrchol i ganolfannau unigol, mae amrywiaeth o ddeunyddiau i'ch cefnogi gyda'r broses farcio a safoni. Mae'r rhain yn cynnwys canllaw PowerPoint cam wrth gam i farcio pob maen prawf asesu, cynlluniau marcio wedi'u hanodi a gwaith enghreifftiol gyda sylwebaeth lawn gan gymedrolwr profiadol. At ddibenion cyfrinachedd, mae'r rhain i'w cael ar y wefan ddiogel. Cewch eich hatgoffa na ddylech, dan unrhyw amodau, fod yn rhannu unrhyw enghreifftiau wedi'u marcio na gwybodaeth gyfrinachol am yr asesiad dan reolaeth gyda'ch myfyrwyr.

## Pryd ddylwn i gyflwyno marciau a gwaith i CBAC?

Ar ôl i'r gwaith gael ei farcio, rhaid mewnbynnu'r marciau ar y System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol (IAMIS) drwy Wefan Ddiogel CBAC. Dylid cyflwyno pob marc i CBAC erbyn **8 Mai** bob blwyddyn. Pan fydd y marciau wedi'u cyflwyno, bydd y system yn cynhyrchu manylion y sampl y

gofynnwyd amdano (rhestr o ymgeiswyr) yn awtomatig.

Dylai canolfannau uwchlwytho'r gwaith sampl y gofynnwyd amdano erbyn **15 Mai** ac ni ddylent ddarparu gwaith gan ymgeiswyr gwahanol yn lle'r gwaith y gofynnwyd amdano.

Yna bydd y tîm cymedroli yn cymedroli'r gwaith. Cofiwch y gall CBAC Eduqas gysylltu â'r ganolfan ar unrhyw adeg ar ôl 15 Mai i ofyn am ragor o samplau o waith ymgeiswyr.

Rhaid uwchlwytho unrhyw waith ychwanegol y gofynnir amdano ar unwaith.

**Pa waith papur sydd ei angen?**

Dylid cyflwyno Taflen Gofnodi Marciau'r Ymgeisydd wedi'i llofnodi ynghyd â phob darn o waith ymgeisydd yn y sampl. ***Rhaid*** i'r ymgeisydd a'r aseswr lofnodi'r daflen hon, yn ogystal â'r Aseswr Arweiniol (lle bo'n berthnasol). Ni fydd gwaith heb ei ddilysu a gyflwynir yn cael ei gymedroli ac ni fydd ymgeiswyr yn derbyn marciau. Dylai pob canolfan hefyd gynnwys copi o'r Ffurflen Sicrhau Ansawdd (sydd ar gael ar y wefan agored) er mwyn dogfennu'r weithdrefn safoni mewnol yn gryno yn y ganolfan ac un copi o Friff Aseiniad y Dysgwr a ddewiswyd.

**Pa adborth fyddwn ni'n ei gael ar ôl i'r cymedrolwr dderbyn y gwaith?**

Bydd adroddiad cynhwysfawr a ysgrifennir gan y cymedrolwr ar gael i bob canolfan. Bydd hwn ar gael drwy glicio ar 'Gweld Adroddiad y Cymedrolwr' ar y system mewnbynnu marciau asesiad mewnol (IAMIS) ar ddiwrnod y canlyniadau. Bydd adroddiadau yn rhoi sylwadau ar natur y gwaith gweinyddol a chywirdeb y marcio. Darllenwch yr adroddiadau hyn yn ofalus.

Ar ddiwrnod y canlyniadau, bydd Adroddiad yr Uwch Arholwr/Uwch Gymedrolwr yn cael ei gyhoeddi ar wefannau cyhoeddus CBAC ac Eduqas. Sicrhewch eich bod yn darllen yr adborth yn ofalus iawn.

**A all ymgeiswyr ailsefyll asesiad mewnol?**

Gallant. Os yw'r gwaith eisoes wedi'i gyflwyno i CBAC i'w gymedroli, ni fydd yr ymgeisydd yn cael gradd tan fis Awst ar ddiwrnod y canlyniadau Safon Uwch, felly os yw'n dymuno ailsefyll, byddai'n rhaid gwneud hynny yn y flwyddyn academaidd ganlynol gyda briff gwahanol.

Byddwch yn ymwybodol bod ailsefyll yn wahanol iawn i ddechrau o'r newydd (gweler y cwestiwn nesaf). Mae cyfleoedd Ailsefyll yn cael eu trefnu drwy'r Corff Dyfarnu a dim ond ar gyfer ymgeiswyr sydd eisoes wedi cyflwyno marciau i CBAC ar gyfer yr uned honno y maent ar gael.

**A oes hawl gan ymgeiswyr i roi cynnig ar asesiad mewnol am yr ail dro yn yr un flwyddyn academaidd (cynnig o'r newydd)?**

Rhaid i ymgeiswyr lwyddo ym **mhob** uned i dderbyn gradd ar gyfer y Dystysgrif a'r Diploma (gan gynnwys llwyddo o ychydig ar gyfer unedau a asesir yn allanol – gweler uchod am fanylion pellach

ynglŷn â hyn). Gall ymgeiswyr roi cynnig ar yr asesiad dan reolaeth am yr ail dro yn y ganolfan yn ystod unrhyw flwyddyn academaidd, ond rhaid iddynt ddefnyddio **briff gwahanol.** Lle mae ymgeisydd yn rhoi cynnig ar yr asesiad dan reolaeth am yr ail dro yn yr un flwyddyn academaidd, rhaid i'r ganolfan dynnu sylw at yr ymgeiswyr hynny drwy gyflwyno'r **DDAU** gynnig os ydyn nhw'n rhan o'r sampl y gofynnir amdano i'w gymedroli. Gall canolfannau fewnbynnu'r marc uchaf a enillwyd gan yr ymgeisydd erbyn y dyddiad cau ar 8 Mai. Ni ddylai ymgeiswyr sy'n rhoi cynnig ar y dasg am yr ail dro gael mynediad i'w hymgais gyntaf yn y cyfnod interim gan y byddai hyn yn gyfystyr ag adborth. Dylai canolfannau amseru'r tasgau asesiad dan reolaeth yn unol â hynny os ydyn nhw am roi cyfle i ymgeiswyr roi cynnig ar y dasg am yr eildro cyn cyflwyno marciau.

**A allwn ni ddefnyddio briffiau 'byw' ar gyfer ffug arholiadau ac arholiadau ymarfer?**
Na. Mae briffiau byw at ddibenion asesiadau terfynol yn unig. Os ydych chi am gynhyrchu briff enghreifftiol at ddibenion darlunio neu ymarfer, mae croeso i chi wneud hynny. Fodd bynnag, ni chaiff ymgeiswyr weld na rhoi cynnig ar y tasgau terfynol cyn sesiynau'r asesiad dan reolaeth.

## UNEDAU A ASESIR YN ALLANOL (Uned 2 ac Uned 4)

**Os yw rhywbeth wedi'i restru fel enghraifft (e.e.) yn y meini prawf asesu, a yw hi'n bosibl defnyddio'r enghraifft hon i ffurfio cwestiwn arholiad?**

Na, ni all y cwestiwn ei hun ganolbwyntio ar enghraifft a restrir. Fodd bynnag, gallai'r ymgeisydd ddefnyddio'r enghreifftiau a restrir yn ei ateb. Bydd cynlluniau marcio yn ei gwneud yn glir ei bod yn dderbyniol defnyddio enghreifftiau perthnasol eraill ar wahân i'r rhai a restrir yn y fanyleb.

**A oes unrhyw ddeunyddiau asesu enghreifftiol (DAE/SAMs) ar gael?**

Oes, mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol a'r cyn bapurau (o 2016) i'w gweld ar dudalen pwnc gwefannau CBAC ac Eduqas neu drwy'r wefan ddiogel (gweler y cyfarwyddiadau ar ddiwedd y llyfryn hwn). Ceir cynlluniau marcio enghreifftiol ar gyfer pob uned a gaiff ei harholi hefyd.

**Ble gallwn ni ddod o hyd i ffiniau graddau o gyfresi arholiadau blaenorol?**

Yn yr un modd â'r unedau a asesir yn fewnol, nid yw'r ffiniau graddau ar gyfer yr unedau sy'n cael eu harholi yn sefydlog a gallant amrywio bob blwyddyn. Gallwch ddod o hyd i'r ffiniau a ddyfarnwyd ar gyfer pob uned o bob sesiwn ar wefan CBAC yma. Dewiswch y flwyddyn, sesiwn, pwnc a'r opsiwn priodol o opsiynau'r gwymplen.


## ADNODDAU A HYFFORDDIANT


**Ble gallaf ddod o hyd i'r adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r cymhwyster hwn?**

Gellir dod o hyd i gyn-bapurau arholiad a Briffiau Aseiniad y Dysgwr ar wefan ddiogel CBAC. Yno hefyd mae detholiad o waith asesu dan reolaeth wedi'i farcio. Defnyddiwch yr enghreifftiau hyn at bwrpasau hyfforddiant a safoni yn eich adrannau ond ni ddylech, o dan unrhyw amgylchiadau, eu rhannu ag ymgeiswyr nac athrawon eraill drwy safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Rhaid cadw'r rhain yn gyfrinachol. **Rhaid i chi gysylltu â'ch Swyddog Arholiadau i sicrhau bod gennych fynediad i'r wefan ddiogel.**

Gellir hefyd gweld dogfennau defnyddiol ar dudalennau cartref Lefel 3 Troseddeg ar wefannau CBAC ac Eduqas. Mae'r rhain yn cynnwys ffolder o ddeunyddiau i gefnogi canolfannau newydd.

Ar ein tudalen hafan fe welwch hefyd:
Manylebau
Amserlenni, deunyddiau a gweminarau DPP
Dogfennau Arweiniad i'r arholiad
Gwybodaeth am Ffiniau Graddau
Adolygu Arholiadau Ar-Lein








**A oes gwerslyfr ar gael i gefnogi'r cymhwyster hwn?**

Mae dau werslyfr, a gymeradwywyd gan CBAC, sy'n ymdrin â phob uned y Diploma a'r Dystysgrif Cymhwysol. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r ddau werslyfr yn 2021. Gallwch brynu'r gwerslyfrau hyn yn uniongyrchol gan y cyhoeddwyr.

1. Henderson, C 2021, *Criminology*, Illuminate Publishing
2. Webb, R, Townend, A 2021, *Criminology* (*Book One, Book Two*), Gwasg Napier

**Pryd fydd digwyddiadau Dysgu Proffesiynol (DPP) i gefnogi ein gwaith o gyflwyno'r cwrs yn cael eu cynnal?**




Cynhelir digwyddiadau Dysgu Proffesiynol (ar gyfer canolfannau newydd a sefydledig) bob blwyddyn. Mae'r dyddiadau i'w gweld ar dudalennau Dysgu Proffesiynol gwefannau CBAC ac Eduqas. Gwiriwch am y newyddion diweddaraf am bynciau yn rheolaidd a **thanysgrifiwch** i'w derbyn drwy dudalennau cartref CBAC Eduqas Troseddeg i sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth a'r datblygiadau diweddaraf.


**Sut mae dod yn arholwr neu'n gymedrolwr ar gyfer Lefel 3 Troseddeg Gymhwysol?**

Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio arholwyr a chymedrolwyr newydd a byddai eich cais yn cael ei

groesawu'n fawr. Gallwch gyflwyno eich manylion a chofrestru eich cais drwy'r system penodiadau ar [wefan CBAC].


# ATODIAD A: LLYWIO DRWY WEFAN DDIOGEL CBAC

Ar ôl i chi fewngofnodi i Wefan Ddiogel CBAC byddwch yn gweld y sgrin ganlynol:




Cyfeiriwch y cyrchwr at y tab 'Adnoddau' a chliciwch ar **'Deunydd Anoddau Pwnc-Benodol yn Cynnwys DPP ac Enghreifftiau'.** Os na allwch chi weld yr un nodweddion ar dudalen hafan y wefan ddiogel ar eich sgrin ar ôl mewngofnodi, gall hyn fod oherwydd nad yw eich Swyddog Arholiadau wedi rhoi mynediad llawn i chi i'r wefan ddiogel. Gall eich Swyddog Arholiadau uwchraddio eich hawliau yn gyflym ac yn hawdd pan fydd yn mewngofnodi.

Gan ddefnyddio botymau'r gwymplen, defnyddiwch y chwiliad a welir isod i gael gafael ar yr holl ddeunyddiau Troseddeg. Mae'r holl ddeunyddiau ar gael drwy ddewis naill ai CBAC neu Eduqas a gallwch hidlo eich dewis ymhellach gan ddefnyddio'r gwymplen 'Math o Ddogfen'.


https://www.wjecservices.co.uk/sectionlist.asp?stype=4
WJEC Secure Website
Page Safety Tools
HOME ENTRIES INTERNAL ASSESSMENT SPECIAL REQUIREMENTS RESULTS RESOURCES WELSH BAC SECURE FILE TRANSFER JCQ CENTRE ADMIN PORTAL
Signed in as 68999 Cymraeg Account Admin Terms & Conditions Sign out
Subject-Specific Support Material including CPD & Exemplars
INFO : Use the dropdown lists to select subject, level and section and click "search"
Options
Subject
Criminology
Brand
Select an option
WJEC
Eduqas
Level
Level 3
Type of document
All
Publication Year
All
Language
English
Enter free text search
SEARCH
Please click on the section titles to view the list of available documents.
Section
A level English Language and Literature NEA Standardising Exemplar
A level English Language NEA Standardising Exemplar

Wrth sgrolio drwy'r dudalen hon byddwch yn gweld Cyn Bapurau a Chynlluniau Marcio o bob blwyddyn arholi yn ogystal â deunyddiau DPP. Mae dwy ffeil zip sy'n cynnwys yr holl Friffiau Aseiniad y Dysgwr ar gael i'w defnyddio ar gyfer Unedau 1 a 3. Mae'r ffeiliau zip hyn hefyd yn cynnwys copïau o'r cynlluniau marcio wedi'u hanodi ar gyfer pob uned a chanllawiau athrawon cyflawn ynglŷn ag asesiadau dan reolaeth.

Bydd unrhyw waith enghreifftiol newydd i gefnogi canolfannau wrth iddyn nhw gyflwyno a marcio'r asesiadau dan reolaeth yn ymddangos yma.

